Hysbysiad Archwilio - Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De

Mae Rheoliad 10(1) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn gofyn bod Swyddog Cyllid Cyfrifol Cyngor Rhondda Cynon Taf yn llofnodi a dyddio'r datganiad o gyfrifon, ac yn ardystio ei fod yn cyflwyno trosolwg gwir a theg o sefyllfa ariannol y corff ar ddiwedd y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi ac incwm a gwariant y corff ar gyfer y flwyddyn honno. Roedd y Rheoliadau'n gofyn bod y broses yma wedi'i chwblhau erbyn 31 Mai 2024.

[Llofnododd y Swyddog Ariannol Cyfrifol y datganiad o gyfrifon a'i ardystio fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau, a llofnododd Cadeirydd y Cyd-bwyllgor y datganiad ar 11 Mehefin 2024].

Mae Rheoliad 10(2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) yn ei gwneud hi'n ofynnol, yn dilyn ardystiad y Swyddog Ariannol Cyfrifol, a Chadeirydd y Cydbwyllgor, y cyfeiriwyd ato uchod, bod Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De yn cymeradwyo ac yn cyhoeddi'r datganiad o gyfrifon sydd wedi cael ei archwilio. Roedd y Rheoliadau'n gofyn bod y broses yma wedi'i chwblhau erbyn 31 Gorffennaf 2024.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei disgwyliadau o ran amserlen estynedig ar gyfer paratoi a chyhoeddi cyfrifon ariannol statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, yr awdurdod cyfrifol, wedi adolygu ei amserlen o ganlyniad i hynny. Dydy'r archwiliad o ddatganiad o gyfrifon 2023/24 ddim wedi'i gwblhau eto a doedd barn yr archwilwyr ddim wedi'i ddarparu erbyn 31 Gorffennaf 2024. Dydy'r datganiad cyfrifon sydd wedi'i gyhoeddi ddim wedi bod yn destun archwiliad.